

**COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMDEITHAS TREARDDUR A GYNHALIWDYD YN NEUADD BENTREF BAE TREARDDUR 28 MEHEFIN 2016 AM 7 O'R GLOCH.**

**PRESENNOL:**

Cynghorydd Mrs. C. L. McDermott - Cadeirydd.

Cynghorwyr J. Abbott, Alan Benson, Mrs S. Conrad-Smith, Ms Anwen McCann, Stephen McGee, Geoff McGinn, Eric Roberts, Dafydd Rhys Thomas J. P. ac E. Gwynfor Williams.

**Hefyd yn bresennol:** Cynghorydd Trefor Lloyd Hughes.

1. **YMDDIHEURIADAU:** Cynghorydd H. B Rowlands.
2. **DATGANIAD O DDIDDORDEB:**  
Ceisiadau cynllunio 15.3, 15.4 (Ddraenen Ddu)  
Cyng. S. Conrad - Smith, Anwen McCann, E. Gwynfor Williams a Eric Roberts  
Ceisiadau cynllunio 15.5, 15.6 (Bodwarren) - Cllrs. S. Conrad-Smith, Anwen McCann ac E. Gwynfor Williams.
3. **COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**  
Penderfynwyd: Derbyn a chadarnhau fod y cofnodion yn gywir.
4. **MATERION YN CODI O'R COFNODION**
  - 4.1 **Darparu biniau:**  
**Cyflwynwyd:** Adroddiad gan y Cyng. Rowlands ar gyflwr a lleoliad y biniau gwastraff.  
**Penderfynwyd:** Derbyn yr argymhellion ynglŷn â symud y biniau, i sefydlu pa rai sydd angen eu cyfnewid a pa arian sydd ar gael gan CSYM ar eu cyfer.
  - 4.2 **Lle glas ar Lon Penrallt.**  
**Adroddwyd:** 'Roedd y materion yn ymwneud â rhwystrau ar y lle glas wedi eu datrys.  
**Penderfynwyd:** Rhoi gwybod i CSYM a chadarnhau nad oedd angen unrhyw gamau pellach.
5. **GOHEBIAETH**
  - 5.1 **Cyfle posibl i Weithredu Toiledau Cyhoeddus o 1 Ebrill 2017:**  
**Cyflwynwyd:** Llythyr gan CSYM gyda manylion y costau hanesyddol a thelerau drafft yn ymwneud ag unrhyw drefniadau i weithredu'r toiledau yn y dyfodol.  
**Penderfynwyd:** i drafod hyn yn y cyfarfod nesaf.
  - 5.2 **Fforwm Cyswllt Cyngor Tref a Chymuned:**  
**Cyflwynwyd a nodwyd** - hysbysiad o gyfarfod ar 21.7.2016.
  - 5.3 **Yr Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd - Ymgynghoriad ar Bolisi Cynllunio:**  
**Cyflwynwyd:** - Dogfen ymgynghori ar y Canllawiau Cynllunio Atodol cyfredol

**COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMDEITHAS TREARDDUR A GYNHALIWD YN NEUADD BENTREF BAE TREARDDUR 28 MEHEFIN 2016 AM 7 0'R GLOCH.**

Cynllunio a'r Iaith Gymraeg.

**Penderfynwyd:** i drafod hyn yn y cyfarfod nesaf.

**5.4 Safleoedd dros dro ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr (Ymgynghori):**

**Cyflwynwyd :** Cynigion ar gyfer Mannau Stopio Dros Dro am hyd at bythefnos:

Safle 1 - Stried o dir rhwng yr A55/A5 rhwng Llanfairpwll a Chroesfordd Star

Safle 2 - Parsel o dir ar Fân-ddaliad yn y Gaerwen

Safle 3 - Tir ger yr A5 yn ymyl Fferm Cymunod, Bryngwran Tir ger yr A5 wrth Fferm Cymunod, Bryngwran

Man Stopio Dros Dro yn ardal Caergybi am hyd at ddwy noson

Safle 4 - Tir ar hen fferm, oddi ar Lôn Cyttir, Caergybi (i'r de o Ysgol Kingsland)

Safle 5 - Tir yn Fferm Tyddyn Lantern , Caergybi .

**Penderfynwyd:** I wrthwynebu'r cynigion ar gyfer y safleoedd yng Nghaergybi, roeddent yn anaddas oherwydd eu hagosrwydd i ysgolion, meithrinfa, safleoedd diwydiannol a busnesau lleol.

**5.5 Cod Ymarfer Diwygiedig ar Faterion y Gweithlu**

**Cyflwynwyd a nodwyd:** Canllaw Cynulliad Cymru ar faterion gweithlu.

**5.6 Plac Cofeb - Porthdafarch**

**Adroddwyd:** Derbyniwyd cais drwy law O. R. Jones & Co. (Ymgymerywyr yng Nghaergybi) i osod plac fel cofeb ar y wal yn Porthdafarch. Anfonwyd y cais ymlaen i'r Cyngor Sir.

**6. SAFLE HAMDDEN:**

**Adroddwyd:** Dim gohebiaeth bellach gan y Cyngor Sir ar y mater hwn.

**7. CYFRANIADAU - Dim ceisiadau.**

**8. ADRODDIADAU'R CYNGHORWYR**

**8.1 Cynghorydd Dafydd Rhys Thomas:** Dywedodd nad oedd masnachu anrhwyddedig ar Ffordd Ravenspoint bellach.

**9 CYLLID, GWEINYDDU A RHEOLI RISG**

**9.1 Adroddiad Ariannol Misol:**

**Cyflwynwyd a nodwyd :** Adroddiad am y cyfnod 1/4/2016 i 31/5/2016 ynghyd â chysoniad banc a Chyfrifon Banc.

**10 TALIADAU**

**Penderfynwyd: Cadarnhau a thalu'r canlynol:-**

1408	H.M.R.C	Treth Incwm	£85.90
1409	E. M. Owen	Cyflog	£343.585

**11 COD YMDDYGIAD NEWYDD**

Cytunwyd yn unfrydol y byddai Cyngor Cymdeithas Trearddur yn mabwysiadu'r Cod

## **COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMDEITHAS TREARDDUR A GYNHALIWDYD YN NEUADD BENTREF BAE TREARDDUR 28 MEHEFIN 2016 AM 7 O'R GLOCH.**

Ymddygiad newydd yn unol â'r Gorchymyn Awdurdodau Lleol (Cod Ymddygiad Enghreifftiol) (Cymru) (Diwygiad) 2016.

### **12 PRYNU LAP TOP**

**Penderfynwyd:** I gasglu gwybodaeth am liniadur, argraffydd a thaflunydd sgrin addas ar gyfer y cyfarfod nesaf.

### **13 UNRHYW FATER BRYD ARALL**

#### **13.1 Llwybrau Cyhoeddus:**

**Adroddwyd:** 'Roedd y llwybrau yn gyffredinol mewn cyflwr da, gyda'r llwybr ger Isallt Fawr wedi cael ei dorri yn barod a'r llwybr tuag at Roscolyn i'w dorri yn fuan. Fodd bynnag, nodwyd bod mynediad i'r traeth o lwybr Henborth yn beryglus a bod llwybr o'r swyddfa bost i'r traeth angen sylw.

**Penderfynwyd:** Hysbysu CSYM am gyflwr llwybr Henborth a sicrhau bod y gwaith yn cael ei wneud ar y gweddill.

#### **13.2 Meinciau:**

**Adroddwyd:** Bod y meinciau ar Ffordd Plas a Porthdafarch angen sylw.

**Penderfynwyd:** Trefnu i'r gwaith cynnal gael ei wneud.

#### **13.3 Sedd Wag:**

**Adroddwyd:** Roedd CSYM wedi cael gwybod am y sedd wag ac roeddent ar fin anfon hysbysiad swyddogol amdani.

#### **13.4 Offer chwarae:**

**Nodwyd:** Fod angen adroddiad ar gyflwr yr offer chwarae.

#### **13.5 Y Range:**

Mynegwyd pryderon ynghylch â chyflwr y tir, roedd hoel difrod yno gyda rhychau mawr yn y ddaear, yr eithin a'r grug wedi cael eu torri yn ôl, dim byd yn tyfu a llawer o'r bywyd gwyllt wedi diflannu.

**Penderfynwyd:** I annog y RSPB i ailystyried eu harferion rheoli gan ei bod yn ymddangos fod eu rhaglen o waith yn difetha harddwch naturiol yr ardal.

#### **13.6 Goryrru:**

**Adroddwyd:** bod y traffig yn goryrru rhwng y Gwesty Traeth a Ponrhydybont, nid oedd arwyddion ysbeidiol yno.

**Penderfynwyd:** Gofyn CSYM i ystyried rhoi arwyddion ar y lon i geisio lleihau cyflymder.

#### **13.7 Safle Hamdden**

**Nodwyd:** bod y Clwb Bowlio Caergybi wedi dangos diddordeb ynddo.

### **14 PENDERFYNIADAU CYNLLUNIO**

14.1 46C410F - Garreg Fawr Farm, Lon Garreg Fawr - Caniatwyd.

**COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMDEITHAS TREARDDUR A GYNHALIWDYD YN NEUADD BENTREF BAE TREARDDUR 28 MEHEFIN 2016 AM 7 0'R GLOCH.**

- 14.2 46C14X/1/DIs - The Cliff Caravan Park, Bae Trearddur - Caniatawyd.
- 14.3 46C428B - Goferydd, South Stack Road - Caniatawyd.
- 14.4 46C561 - Threeways, Lon St Ffraid, Bae Trearddur - Caniatawyd.
- 14.5 46C563 - 24 Ravenspoint Road, Bae Trearddur - Caniatawyd.
- 14.6 46C499A - Fron y Graig, Ravenspoint Road, Bae Trearddur - Caniatawyd.
- 14.7 46C149Q - Trearddur Bay Hotel, Bae Trearddur - Caniatawyd.
- 14.8 46C564 - Sealoft, Fordd Penrallt, Bae Trearddur - Caniatawyd.

**15 CEISIADAU CYNLLUNIO**

- 15.1 **46C565 - Bryn Awel, Lon Penrhingarw, Bae Trearddur**  
Cais llawn ar gyfer codi annedd deulawr ynghyd a chreu mynedfa i gerbydau.  
**Penderfynwyd:** Dim gwrthwynebiad.
- 15.2 **46C566 - Ar y Graig, Lôn Golygfa'r Wyddfa / Snowdon View, Bae Trearddur**  
Cais llawn ar gyfer addasu ac ehangu. **Penderfynwyd:** Dim gwrthwynebiad.
- 15.3 **46C160T - Ddraenen Ddu,, Bae Trearddur Bay**  
Cais llawn ar gyfer codi 6 caban bren ynghyd a chael gwared â 11 carafán teithio  
**Penderfynwyd:** Mynegi pryderon am gorddatblygu mewn ardal AHNE ac i ofyn am i ystyriaeth gael ei rhoi i ymweliad swyddogol i'r safle.
- 15.4 **46C160U/SCR - Ddraenen Ddu**  
Barn sgrinio i godi 6 caban pren - **Nodwyd**
- 15.5 **46C385A - Bodwarren, Penrhosfeilw, Caergybi**  
Cais llawn i osod dau gwt bugail ar gyfer llety gwyliau ynghyd a gosod tanc septig.  
**Penderfynwyd:** Dim gwrthwynebiad.
- 15.6 **46C385B/SCR - Bodwarren, Penrhosifeilw, Caergybi**  
Barn sgrinio i osod dau gwt bugail ar gyfer llety gwyliau ynghyd a gosod tanc septig.  
**Penderfynwyd:** Dim gwrthwynebiad.
- 15.7 **46C538A - Craig y Don, Lon Penrhyn Garw, Trearddur Bay**  
Cais llawn ar gyfer addasu ac ehangu sydd yn cynnwys codi balconi.  
**Penderfynwyd:** Dim gwrthwynebiad.

**16. CYFARFOD NESAF: 26 GORFFENNAF 2016.**

**COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMDEITHAS TREARDDUR A GYNHALIWYD YN  
NEUADD BENTREF BAE TREARDDUR 28 MEHEFIN 2016 AM 7 0'R GLOCH.**